

Annwyl Cyfarwyddwr

## **Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol**

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Dinas Caerdydd yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- Adolygu'r hunanwerthusiad o blant sy'n derbyn gofal a'r cyfarfod her dilynol a gynhaliwyd yn 2018.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Adolygiad o'r adroddiad hunanwerthuso mewn perthynas â hyrwyddo annibyniaeth ac atal anghenion oedolion hŷn (65+ oed) rhag gwaethygu.
- Gweithgaredd â ffocws a gynhaliwyd yn yr awdurdod yn ystod mis Ebrill 2019 mewn perthynas â'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd yn y gwasanaethau plant.
- Gweithgaredd â ffocws a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2019 mewn perthynas â'r gwasanaeth byw'n annibynnol i oedolion, gan ganolbwyntio ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 17 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae cyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol wedi newid llawer ar lefel uwch-reolwyr dros y 12 mis diwethaf. Mae'r gyfarwyddiaeth wedi defnyddio'r newidiadau hyn fel cyfle i adeiladu ar arfer da ac adolygu meysydd i'w gwella ar draws y gwasanaeth cyfan. O ganlyniad, mae'r gyfarwyddiaeth wedi meithrin dealltwriaeth dda o'i chryfderau a'i meysydd her ei hun yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau, hawliau a chanlyniadau yn cael eu cyflwyno gyda'r holl staff yn derbyn hyfforddiant er mwyn sicrhau cysondeb. Nid yw'r dulliau gweithredu hyn wedi cael eu hymgorffori mewn arfer ar draws y gwasanaeth eto.

Mae lefel dda o gymorth corfforaethol i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd. Yn unol ag uchelgais yr awdurdod lleol i gael darpariaeth cymorth cynnar integredig, mae model cyflwyno newydd yn cael ei roi ar waith. Gwnaethom gynnal gweithgaredd â ffocws yn y gwasanaeth cymorth i deuluoedd, sef un o dri gwasanaeth a oedd eisoes wedi rhoi'r model newydd ar waith. Gwelsom fod mesurau cymorth cynnar ataliol wedi datblygu'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys rhoi hyfforddiant i'r staff ar y model Arwyddion Diogelwch. Gwelsom ddiwylliant tîm lle mae llais y plentyn wrth wraidd arfer. Clywsom am waith gyda theuluoedd lle cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol, a gwelsom enghreifftiau o adborth hynod gadarnhaol gan y teuluoedd a oedd wedi cael ymyriadau.

Mae cydbwysedd gofal yn y gwasanaethau oedolion wedi symud tuag at ymyrryd yn gynnar hefyd. Mae adnoddau gwell ynghyd â hyfforddiant gwell i'r staff o'r cychwyn cyntaf yn galluogi canolbwyntio'n gynnar ar ganlyniadau llesiant. Mae'r symud hwn yn cael ei gefnogi gan drefniadau mesur perfformiad a sicrhau ansawdd sy'n edrych ar ddata ansoddol ac sydd hefyd yn casglu gwybodaeth am effaith ac yn annog dysgu.

Yn y gwasanaethau plant, cynyddodd llwyth gwaith cyfartalog gweithwyr cymdeithasol i 19.5 ym mis Rhagfyr 2018 o 16.9 ym mis Medi 2018 a gwelsom fod gorddibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth. Mae hyn o ganlyniad i anawsterau wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol profiadol. Mae 30% o'r swyddi'n wag ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae grŵp prosiect gweithlu wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth: recriwtio, cadw a datblygiad gyrfa. Mae'n hanfodol cael cohort sefydlog o weithwyr cymdeithasol i alluogi plant a theuluoedd i feithrin

ymddiriedaeth a chydberthnasau cadarnhaol er mwyn iddynt gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Yn y gwasanaethau oedolion, ystyrir bod cadw staff yn dda gyda lefelau isel o gyflenwi gan weithwyr asiantaeth. Mae swyddi ymarferwyr iechyd meddwl cymeradwy yn faes penodol lle ceir anhawster i recriwtio. Ymdrinnir â hyn drwy gyfleoedd hyfforddiant ychwanegol.

- Pobl

Mae cynnwys pobl yn y ffordd y caiff eu gofal ei ddylunio a'i gyflwyno yn un o gryfderau Cyngor Dinas Caerdydd. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori i gasglu barn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn gwasanaethau sy'n datblygu. Yn y gwasanaeth anabledau dysgu, mae teuluoedd sy'n gofalu wedi cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori a gwerthuso ar gyfer y gwasanaeth. Yn y gwasanaethau plant, mae pobl ifanc wedi cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth gwasanaethau plant ac maent yn gweithredu fel cynghorwyr i'r grŵp rhianta corfforaethol. Yn y ddau wasanaeth, caiff defnyddwyr gwasanaeth eu cefnogi i weithredu fel aelodau o'r panel cyfweld ar gyfer recriwtio staff yn unol â gweithdrefn recriwtio fwy diogel yr awdurdod.

Drwy'r fforwm rhanbarthol gyda Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae strategaethau ar waith i wella'r ffordd y caiff gweithgareddau Cymraeg eu cydlynu yn yr awdurdod lleol. Mae'r fforwm wedi ystyried ffyrdd o ddenu mwy o staff sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys ymgymryd â gwaith proffilio cymunedau a staff a darparu cyrsiau Cymraeg sydd wedi'u teilwra i staff y gwasanaethau cymdeithasol, megis y rheini sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Gwnaethom gynnal gweithgaredd â ffocws yn y gwasanaethau oedolion gan ganolbwyntio ar y pwynt cyswllt cyntaf. Nod y pwynt cyswllt cyntaf yw cefnogi pobl i fyw'n annibynnol drwy ddatrys problemau dros y ffôn a darparu gwybodaeth a chynngor. Mae'r tîm yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn helpu pobl i weld eu potensial i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Gwelsom fod y staff yn trin pobl â pharch ac yn rhoi'r pwynt cyswllt cyntaf i bobl. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am weithio'n gydweithredol â gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn gadarnhaol am yr ymateb a gawsant.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y bwrdd iechyd i ddatblygu ffordd newydd o weithio er mwyn helpu i ryddhau pobl o ysbytai'n amserol a'u galluogi i ddychwelyd adref lle y bo'n bosibl. Gwelsom effaith gadarnhaol y cynllun "Get Me Home", sy'n cael ei dreialu ar y cyd ag Ysbyty Prifysgol Cymru, lle mae swyddogion cyswllt yr awdurdod lleol yn gweithio ar wardiau ysbytai i helpu pobl i ddychwelyd i'w cymunedau'n gynt os nad oes angen cymorth gofal cymdeithasol parhaus arnynt. Cawsom wybod y bydd

y cynllun yn cael ei roi ar waith mewn wyth ward arall erbyn mis Mehefin 2019 o ganlyniad i'w lwyddiant.

Mae'r awdurdod lleol wedi profi cynnydd yn swm y galw am wasanaethau plant ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r galw ar y cam cyntaf. Mae hefyd yn ystyried sut i alluogi teuluoedd i gymryd 'cam yn ôl' i'r gwasanaethau cymorth cynnar yn fwy priodol. Byddwn yn monitro datblygiad strategaeth gomisiynu a sefyllfa'r farchnad mawr ei hangen er mwyn mapio galw am wasanaethau yn y dyfodol ac i helpu i lywio'r farchnad.

Mae angen gwella dewis ac ansawdd lleoliadau i blant â phrofiad o ofal ar frys. Mae nifer fawr o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli y tu allan i Gaerdydd ac nid ydynt yn gallu dychwelyd oherwydd diffyg darpariaeth leol briodol. Yn ogystal ag adolygu'r holl blant mewn lleoliadau preswyl, mae'r awdurdod wedi dechrau prosiect i ddatblygu darpariaeth leol 'fewnol' o gartrefi ar gyfer grwpiau bach.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr anawsterau i recriwtio gofalmwr maeth ac o ganlyniad mae'n dibynnu gormod ar Asiantaethau Maethu Annibynnol. Cydnabyddir pwysigrwydd cynnal cydberthynas dda ag Asiantaethau Maethu Annibynnol ac mae'r awdurdod lleol yn gweithio ar ymgyrch recriwtio sy'n canolbwyntio'n benodol ar wella ystod fwy amrywiol o leoliadau.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalmwr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu gyda phwyslais allweddol ar weithio cydweithredol. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn comisiynu, cyllidebau cyfun a chynyddu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a gyflwynir ar draws y rhanbarth. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo cynnig trawsnewid bwrdd partneriaeth Caerdydd a'r Fro – "Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned" – sydd wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau llesiant, gofal cymdeithasol ac iechyd rhanbarthol er mwyn ysgogi cynlluniau i gyflwyno gwasanaethau llyfn, a threfniadau comisiynu ar y cyd ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys cyllidebau cyfun ar gyfer llety gofal.

Yn y gwasanaethau plant, mae cyflwyno panel adnoddau amlasiantaeth wedi helpu i nodi a dyrannu adnoddau er mwyn sefydlogi lleoliadau, llywio cynlluniau gofal a chefnogi plant i aros gartref pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny. Roedd y prosesau goruchwylio gan reolwyr a gwneud penderfyniadau ar y cyd hyn yn ofynnol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau a datblygiad cadarnhaol.

Mae gwaith i ymgysylltu â chymunedau wedi gweithio drwy weithio ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg. Gan weithio mewn partneriaeth ag eglwysi a mosgau lleol, mae'r awdurdod lleol wedi cynghori ar bolisiau diogelu mewn perthynas â chynlluniau nawdd cymunedol ar gyfer ffoaduriaid. Mae'r rhaglenni ailsefydlu ar gyfer ffoaduriaid o Syria a'u teuluoedd yn cynnig cyfle i noddwyr cymunedol – gan gynnwys elusennau lleol, busnesau cymunedol a grwpiau ffydd – helpu i adeiladu cartref a bywyd sefydlog yng Nghymru.

### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Ynghyd â'r rhaglen arolygu thematig, byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â thema'r arolygiadau a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Byddwn yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i gynnal adolygiad dilynol o'r hunanwerthusiad o waith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2019. Caiff adroddiadau cenedlaethol eu cyhoeddi ar ôl i'r rhaglen arolygu thematig a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Byddwn hefyd yn ymgymryd â dau weithgaredd â ffocws yn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn. Caiff manylion am ffocws y gweithgareddau hyn eu cadarnhau.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC er mwyn arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Byddwn hefyd yn cymryd camau dilynol i adolygu'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad ar y cyd gan AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol (Caerdydd – The Links) ym mis Mawrth 2018 a'r adroddiad thematig ar y cyd o dimau iechyd cymunedol ym mis Chwefror 2019 yn ystod y cyfarfodydd â phenaethiaid gwasanaeth a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae AGC yn gweithio ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, AGIC ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer cyd-arolygu trefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Byddwn yn treialu un model yn ystod hydref 2019. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sharon Eastlake', written in a cursive style.

Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn